**<u>PWYSIG:</u> <u>MAE'R CYFATHREBIAD YMA YN EFFEITHIO AR FUDDIANNAU MEWN EIDDO</u>**

**PRYNU TIR YN ORFODOL YM MHORTHCAWL**
**YM MWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL (ARDAL ADFYWIO GLANNAU PORTHCAWL) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR 2021**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990, ADRAN 226 a**
**DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

Rhoddir rhybudd drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("yr awdurdod caffael") wedi gwneud Gorchymyn Prynu Gorfodol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Adfywio Glannau Porthcawl) 2021 o dan adran 226(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae ar fin cyflwyno'r gorchymyn hwn i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, ac os caiff ei gadarnhau, bydd y gorchymyn yn awdurdodi'r awdurdod caffael i brynu'r tir a ddisgrifir isod yn orfodol er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni datblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys tai, dibenion hamdden a manwerthu, ysgol, man agored cyhoeddus a gwelliannau ategol i briffyrdd a'r parth cyhoeddus.

Gellir gweld copi o'r gorchymyn a'r map sy'n cyd-fynd ag ef bob amser rhesymol yn Llyfrgell Porthcawl, Church Place, Porthcawl CF36 3AG neu gellir ei archwilio ar-lein yn

https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/ymgynghoriadau/ymgynghoriadau-cyfredol/cpo-porthcawl/

Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r gorchymyn yn ysgrifenedig i Arolygiaeth Gynllunio Cymru, Gwaith Achos Arbenigol, Adeilad y Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost i wales@planninginspectorate.gov.uk ar neu cyn 12 Tachwedd 2021 a dylai nodi teitl y gorchymyn, sail y gwrthwynebiad a chyfeiriad y gwrthwynebydd a'i fuddiant yn y tir.

Wrth gyflwyno gwrthwynebiad, dylid nodi y bydd eich data personol a'ch gohebiaeth yn cael eu trosglwyddo gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru i'r awdurdod caffael er mwyn galluogi i'ch gwrthwynebiad gael ei ystyried. Pan ddaw'r gorchymyn yn destun gweithdrefnau Ymchwiliad Cyhoeddus, caiff yr holl ohebiaeth ei gopïo i'r Arolygydd sy'n cynnal yr Ymchwiliad a chaiff ei gadw yn llyfrgell yr Ymchwiliad Cyhoeddus, lle mae ar gael i'r cyhoedd. Os nad ydych yn dymuno i'ch data personol gael ei anfon ymlaen, nodwch eich rhesymau wrth gyflwyno'ch gwrthwynebiad a bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn copïo'ch sylwadau i'r awdurdod caffael gyda'ch enw a'ch cyfeiriad wedi'u dileu.

**DISGRIFIAD O'R TIR**

| Plot Rhif | Disgrifiad |
|---|---|
| 1 | Pob buddiant ac eithrio buddiannau (boed yn gyfreithiol neu'n deg) Funfair Sites Limited, Jenoat Limited a Barclays Security Trustee Limited mewn 37,116.56 metr sgwâr o hen Barc Antur Coney Beach a leolir i'r dwyrain o'r Promenâd Dwyreiniol ac i'r gorllewin o Mackworth Road (Rhan o Deitl Rhydd-ddaliad Rhif WA166414). |
| 1A | Pob buddiant ac eithrio buddiannau (boed yn gyfreithiol neu'n deg) Funfair Sites Limited, Jenoat Limited a Barclays Security Trustee Limited mewn 2,177.74 metr sgwâr o ran o Draeth Sandy Bay wedi'i leoli i'r dwyrain o'r Promenâd Dwyreiniol ac i'r de o hen Barc Antur Coney Beach (Rhan o Deitl Rhydd-ddaliad Rhif WA166414). |
| 1B | Pob buddiant ac eithrio buddiannau (boed yn gyfreithiol neu'n deg) Funfair Sites Limited a Jenoat Limited mewn 58.34 metr sgwâr o dir sy'n cynnwys mynedfa â gatiau i gerbydau, rhan o wal gynnal a grisiau, wedi'i leoli rhwng pen deheuol Mackworth Road a blaendraeth Traeth Sandy Bay. |

| | |
|---|---|
| 2 | 11.35 metr sgwâr o dir sy'n ffurfio safle is-orsaf drydan wedi'i leoli i'r dwyrain o’r Promenâd Dwyreiniol a Chyrtiau Tenis Parc Griffin ac i'r gorllewin o hen Barc Antur Coney Beach (Teitl Rhydd-ddaliad Rhif WA414880). |
| 3 | Pob buddiant ac eithrio buddiannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn 1,964.95 metr sgwâr o ran o ffordd a throedffordd Mackworth Road i'r de o'r eiddo yn 48 Mackworth Road ac i'r gogledd o'r fynedfa â gatiau i gerbydau o Mackworth Road i flaendraeth Traeth Sandy Bay. |
| 4 | 78.28 metr sgwâr o ran o Draeth Sandy Bay i'r de-ddwyrain o Mackworth Road ac i'r de-orllewin o'r adeilad a elwir yn Hi Tide Inn. |
| 5 | Pob buddiant ac eithrio buddiannau (boed yn gyfreithiol neu'n deg) Jenoat Limited a Funfair Sites Limited mewn 10,648.73 metr sgwâr o dir a elwir yn hen Barc Hamdden Model Village wedi'i leoli i'r dwyrain o Mackworth Road ac i'r gorllewin o Sandy Lane (Teitl Rhydd-ddaliad Rhif CYM363522). |
| 6 | 140.65 metr sgwâr o ran o ymyl orllewinol Sandy Lane a mynediad cefn i'r eiddo yn 2 Mackworth Road wedi’i leoli i’r de-orllewin o'r gyffordd rhwng Mackworth Road a Sandy Lane. |
| 7 | 421.33 metr sgwâr o ran o ffordd a throedffordd Sandy Lane i'r de o'i gyffordd â Mackworth Road ac i'r de-orllewin o Ysgol Gynradd Newton. |
| 8 | 39.03 metr sgwâr o ran o ymyl orllewinol Sandy Lane a dreif o flaen yr eiddo yn 1 Sandy Lane wedi’i leoli i’r de o'r gyffordd rhwng Mackworth Road a Sandy Lane ac i'r de-orllewin o Ysgol Gynradd Newton. |
| 9 | 37.72 metr sgwâr o ran o ymyl orllewinol Sandy Lane a dreif o flaen yr eiddo yn 2 Sandy Lane wedi’i leoli i’r de o'r gyffordd rhwng Mackworth Road a Sandy Lane ac i'r de-orllewin o Ysgol Gynradd Newton. |
| 10 | Pob buddiant ac eithrio buddiannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn 129.86 metr sgwâr o dir ar ochr ddwyreiniol Sandy Lane sy’n ffurfio man parcio ceir a ddefnyddir mewn cysylltiad ag Ysgol Gynradd Newton wedi’i leoli i’r de-ddwyrain o'r gyffordd rhwng Mackworth Road a Sandy Lane. |
| 10A | Pob buddiant ac eithrio buddiannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn 23.4 metr sgwâr o dir ar ochr ddwyreiniol Sandy Lane sy’n ffurfio mynedfa i gerbydau yng nghefn Ysgol Gynradd Newton wedi’i leoli i’r de-ddwyrain o'r gyffordd rhwng Mackworth Road a Sandy Lane. |
| 11 | 3,504.37 metr sgwâr o ffordd, ymylon a mannau troi Rhych Avenue a rhan o'r lôn o Rhych Avenue i'r adeilad a elwir yn Hi Tide Inn wedi’i leoli i'r de o'r eiddo a elwir yn Hayward House ar Rhych Avenue a chefn 216 New Road ac i'r gorllewin o Barc Gwyliau Bae Trecco (Rhan o Deitl Rhydd-ddaliad Rhif CYM374885). |
| 11A | 61.01 metr sgwâr o droedffordd orllewinol Rhych Avenue wedi’i leoli i'r de-orllewin o'i gyffordd â New Road, i'r dwyrain o'r eiddo yn 214 New Road ac i'r gogledd-orllewin o Barc Gwyliau Bae Trecco. |
| 11B | 432.39 metr sgwâr o ffordd a throedffordd ddwyreiniol Rhych Avenue wedi’i leoli i'r de-orllewin o'i gyffordd â New Road, rhwng yr eiddo yn 214 a 216 New Road ac i'r gogledd-orllewin o Barc Gwyliau Bae Trecco. |

**Dyddiedig: 21 Hydref 2021**

**Kelly Watson**
**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Stryd yr Angel**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 4WB**